Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# TELERAU AC AMODAU CYFFREDINOL AR GYFER GWANSANAETHAU TALADWY

## CYFOETH NATURIOL CYMRU FEL YMGYNGHORAI STATUDOL

Mae'r Telerau ac Amodau Cyffredinol hyn yn gymwys pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu gwasanaethau, cyngor neu hyfforddiant disgresiynol i gwsmer, mewn perthynas **â chynnig ynglŷn â chais cynllunio neu gais statudol arall y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Ymgynghorai Statudol ar ei gyfer.**

**PARTÏON**

(1) Corff Cyfoeth Naturiol Cymru sydd â'i brif swyddfa yn Nhŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP (**CNC**)

(2) Y parti a enwir yn y Dyfynbris fel y sawl sy'n gofyn am y Gwasanaethau (**y Cwsmer**)

**CEFNDIR**

(A) Mae CNC yn gorff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru. Ei bwrpas yw annog rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru, a chymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth arfer ei ddyletswyddau, i'r graddau y mae hynny'n gyson â'u harfer yn briodol.

(B) Fel rhan o'i swyddogaeth, mae CNC yn Ymgynghorai Statudol mewn perthynas â chynigion sy'n ymwneud â materion amgylcheddol.

(C) Yn ychwanegol at ei ddyletswyddau statudol, rhoddwyd i CNC y pŵer i ddarparu cyngor neu gymorth ar unrhyw fater sydd o fewn ei wybodaeth, ei hyfedredd neu'i brofiad; i godi tâl am y gwasanaethau a ddarperir ganddo; ac i wneud unrhyw beth sy'n ymddangos i CNC yn ffafrio, cyflawni ei swyddogaethau neu'n gysylltiedig â hynny, gan gynnwys ymuno mewn cytundebau.

(D) Mae'r Cwsmer yn ystyried neu'n datblygu Cynnig ac yn dymuno cael cyngor CNC. Mae CNC wedi cytuno i ddarparu'r cyfryw gyngor a bennir yn y Gwasanaethau, a hynny yn ddarostyngedig i delerau ac amodau'r Cytundeb.

(E) Wrth ofyn am y Gwasanaethau a ddarperir gan CNC a'u derbyn, mae'r Cwsmer yn cydnabod mai cynghorol yn unig yw cynnwys unrhyw gyngor neu gymorth a ddarperir gan CNC ac na cheir tybio ei fod yn rhwymo CNC nac yn cyfyngu ar CNC mewn unrhyw ffordd arall wrth i CNC gyflawni ei dyletswyddau statudol.

**1 Diffiniadau a dehongli**

1.1 Mae i'r termau a'r ymadroddion sydd yn y rhestr isod yr ystyron a briodolir iddynt ynddi:

| | |
|---|---|
| Amser Gwirioneddol | y nifer o oriau neu ddiwrnodau staff a gymerwyd i gwblhau'r Gwasanaethau |
| Cyfnod Cyflenwi a Gytunwyd | y cyfnod o amser (mewn diwrnodau/wythnosau) a gytunwyd rhwng y Cwsmer ac CNC ar gyfer cyflenwi'r Gwasanaethau ac a gynhwysir yn y Dyfynbris |
| Cytundeb | y cytundeb rhwng CNC a'r Cwsmer ar gyfer darparu Gwasanaethau yn unol â'r Telerau Cyffredinol hyn, y Dyfynbris atodedig ac unrhyw ddogfennau eraill (neu rannau ohonynt) y pennir gan CNC eu bod yn ffurfio rhan o'r Cytundeb |
| Cyfreithiau Llwgrwobrwyo | Deddf Llwgrwobrwyo 2010 a chanllawiau cysylltiedig a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a holl ddeddfwriaeth, offerynnau statudol a rheoliadau cymwysadwy eraill y DU mewn perthynas â llwgrwobrwyo neu lygredigaeth |
| Diwrnodau Busnes | diwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul neu ŵyl banc, neu ŵyl gyhoeddus yng Nghymru; |
| Ffioedd | y ffioedd a/neu'r dull ar gyfer codi tâl fel y'u pennir yn y Dyfynbris |
| Dyddiad Cychwyn | y dyddiad a bennir yn y Dyfynbris |
| Cyfnod y Contract | cyfnod parhad y Cytundeb o'r Dyddiad Cychwyn ymlaen fel y pennir yn y Dyfynbris, neu'n unol â thelerau'r Cytundeb |
| Rheolaeth | mae iddo'r ystyr a roddir i "Control" yn adran 1124 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 |
| Gwybodaeth gyfrinachol | unrhyw wybodaeth y dynodwyd gan y naill barti neu'r llall ei bod yn gyfrinachol [neu y dylid yn rhesymol ei hystyried yn gyfrinachol] (sut bynnag y'i cyflëir neu ar ba gyfryngau bynnag y'i storir) gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â busnes, materion, eiddo, asedau, arferion masnachu, datblygiadau, cyfrinachau masnach, gwybodaeth arbenigol, personél, cwsmeriaid a chyflenwyr y naill barti neu'r llall, a data personol sensitif yn yr ystyr a roddir i "sensitive personal data" gan adran 2 o Ddeddf Diogelu Data 1998 |

| | |
|---|---|
| Diffyg | unrhyw doriad o'i rwymedigaethau gan y naill barti neu'r llall (gan gynnwys toriad cyson neu sylfaenol neu doriad o un o'r telerau sylfaenol, ond nid yn gyfyngedig i hynny) neu unrhyw ddiffyg, gweithred, anwaith, esgeulustod neu ddatganiad gan y naill barti neu'r llall, ei gyflogeion, asiantwyr neu is-gontractwyr mewn cysylltiad neu mewn perthynas â phwnc y Cytundeb, ac y bo'r cyfryw barti yn atebol i'r llall mewn perthynas ag ef |
| *Force Majeure* | digwyddiad neu ddilyniant o ddigwyddiadau y tu hwnt i reolaeth resymol parti, sy'n ei rwystro rhag cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn, neu'n peri iddo oedi cyn eu cyflawni, gan gynnwys yn ddigyfyngiad streiciau, achosion o gloi allan neu weithredu diwydiannol arall gan drydydd partïon, cynnwrf sifil, terfysg, goresgyniad, ymosodiad gan derfysgwyr neu fygythiad o ymosodiad gan derfysgwyr, rhyfel (boed wedi ei datgan neu beidio) neu fygythiad neu baratoad ar gyfer rhyfel, tân, ffrwydrad, storm, gorlifiad, daeargryn, ymsuddiant, haint neu drychineb naturiol arall, neu fethiant rhwydweithiau telathrebu cyhoeddus neu breifat. Nid yw anallu i dalu yn Force Majeure. |
| Telerau Cyffredinol | y telerau ac amodau hyn |
| Cais am Drwydded | cais, neu unrhyw ddeisyfiad ffurfiol arall, am drwydded amgylcheddol, cydsyniad, hawlen, caniatâd, awdurdod, cymeradwyaeth, pàs neu unrhyw offeryn rheoleiddiol arall y mae dyletswydd ar CNC i benderfynu yn ei gylch |
| Cynnig | cynnig mewn perthynas â chais cynllunio neu gais statudol arall, neu gyflawni amodau mewn perthynas â cheisiadau o'r fath, y mae CNC yn Ymgynghorai Statudol ar ei gyfer ac a bennir yn y Dyfynbris |
| Dyfynbris | yw, fel y mae'r cyd-destun yn caniatáu, y dyfynbris yr atodir y telerau ac amodau hyn ynghlwm wrtho, a ddarparwyd gan CNC i'r Cwsmer ac sy'n pennu'r Cynnig perthnasol, y Gwasanaethau, Ffioedd, unrhyw Gyfnod Cyflenwi a Gytunwyd, Cynrychiolwyr pob un o'r partïon a manylion eraill sy'n berthnasol i'r Gwasanaethau ac sydd wedi ei lofnodi neu ei weithredu gan neu ar ran CNC a'r Cwsmer, neu<br><br>pa bynnag Ddyfynbris sy'n disodli a lofnodwyd gan neu a weithredwyd gan neu ar ran CNC a'r Cwsmer yn unol â chymal 10.1 |
| Cynrychiolydd | cynrychiolydd parti unigol i'r Cytundeb, fel y'i henwir yn y Dyfynbris ac y caiff y parti perthnasol ei enwi o bryd i'w gilydd wedi hynny |
| Uwch-gynrychiolydd | uwch-gynrychiolydd parti unigol i'r Cytundeb, fel y'i henwir yn y Dyfynbris ac y caiff y parti perthnasol ei enwi o bryd i'w gilydd wedi hynny |

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau | y gwasanaethau sydd i'w cyflenwi i'r Cwsmer gan CNC o dan y Cytundeb, fel y'u disgrifir yn fwy penodol yn y Dyfynbris |
| Ymgynghorai Statudol | swyddogaeth CNC fel ymgynghorai y darperir ar ei chyfer yn y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n llywodraethu'r Cynnig |

1.2 Ni fydd penawdau cymal a pharagraff effeithio ar y dehongliad o'r Cytundeb.

1.3 Mae person yn cynnwys person naturiol, corff corfforaethol neu anghorfforedig (pa un a oes iddo bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân ai peidio) a chynrychiolwyr personol ac olynwyr y person hwnnw neu aseineion a ganiateir.

1.4 Bydd cyfeiriad at gwmni yn cynnwys unrhyw gwmni, corfforaeth neu gorff corfforaethol arall, ym mhle bynnag a sut bynnag y'i corfforwyd neu'i sefydlwyd.

1.5 Mae geiriau yn yr unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb

1.6 Mae cyfeiriad at un rhyw yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ryw arall.

1.7 Mae cyfeiriad at unrhyw barti yn cynnwys cyfeiriad at gynrychiolwyr personol, olynwyr neu aseineion a ganiateir y parti hwnnw.

1.8 Mae cyfeiriad at statud, darpariaeth statudol neu is-ddeddfwriaeth yn gyfeiriad at y cyfryw fel y fel y bo mewn grym o bryd i'w gilydd, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ddiwygiad neu ailddeddfiad ac mae'n cynnwys unrhyw statud, darpariaeth statudol neu is-ddeddfwriaeth y mae'n ei diwygio neu'n ei hailddeddfu.

1.9 Mae cyfeiriad at ysgrifennu neu ysgrifenedig yn cynnwys gohebiaeth ar ffacs ac e-bost a phan nodir cyfeiriad mae hyn yn cynnwys cyfeiriad e-bost.

1.10 Rhaid dehongli unrhyw ymadrodd a gyflwynir gan y termau 'yn cynnwys', 'gan gynnwys', 'yn benodol' neu unrhyw ymadrodd cyffelyb, fel un enghreifftiol, ac ni fydd yn cyfyngu ar ystyr y geiriau sy'n rhagflaenu'r termau hynny.

## 2 Y Cytundeb

2.1 Os digwydd unrhyw wrthdaro rhwng y Dyfynbris a'r Telerau Cyffredinol hyn ac unrhyw ddogfen arall sy'n ffurfio rhan o'r Cytundeb, ac i'r graddau y digwydd hynny yn unig, rhaid datrys y gwrthdaro yn unol â'r drefn flaenoriaeth ganlynol:

2.1.1 y Telerau Cyffredinol hyn;

2.1.2 y Dyfyniad; a

2.1.3 unrhyw ddogfen arall sy'n ffurfio rhan o'r Cytundeb.

2.2 Ni fydd unrhyw Ddyfynbris yn rhwymo CNC ac ni fydd unrhyw Gytundeb wedi ei ffurfio oni fydd a hyd nes bo'r Cwsmer ac CNC wedi llofnodi'r Dyfynbris.

**3 Parhad y Cytundeb**

3.1 Bydd y Cytundeb yn cychwyn ar y Dyddiad Cychwyn ac, yn ddarostyngedig i'w derfynu yn gynharach yn unol â thelerau'r Cytundeb, daw i ben ar ddiwrnod olaf Cyfnod y Contract.

**4 Gwasanaethau**

4.1 Wrth ofyn am y Gwasanaethau mae'r Cwsmer yn cydnabod ac yn cytuno:

4.1.1 nad yw unrhyw gyngor a roddir neu ddeunyddiau neu ddogfennau a ddarperir gan CNC yn unol â'r Cytundeb yn cyfyngu ar CNC nac yn ei rwymo mewn perthynas â'i ddyletswyddau statudol nac ychwaith ei swyddogaeth fel Ymgynghorai Statudol;

4.1.2 Nid yw unrhyw gyngor a roddir gan CNC yn unol â'r Cytundeb yn rhwymo CNC mewn perthynas ag unrhyw sylwadau y gall eu gwneud yn y dyfodol fel Ymgynghorai Statudol nac unrhyw benderfyniad y gall CNC ei wneud mewn perthynas ag unrhyw Gais am Drwydded;

4.1.3 Nid yw unrhyw safbwyntiau neu farn a fynegir wrth ddarparu'r Gwasanaethau yn rhagfarnu'r ystyriaeth y mae'n ofynnol bod CNC yn ei rhoi i'r Cynnig nac unrhyw sylwadau a wneir ganddo yn y dyfodol fel Ymgynghorai Statudol nac unrhyw benderfyniad y gall CNC ei wneud mewn perthynas ag unrhyw Gais am Drwydded;

4.1.4 Bydd y penderfyniad terfynol ynghylch unrhyw sylwadau a wneir gan CNC fel Ymgynghorai Statudol yn seiliedig ar yr holl wybodaeth berthnasol ar gael i CNC ar yr adeg y bydd yn gwneud y cyfryw sylwadau;

4.1.5 Ni all ac nid yw CNC yn rhoi unrhyw warant ynghylch y sylwadau y gall eu gwneud fel Ymgynghorai Statudol mewn perthynas ag unrhyw gais am y Cynnig;

4.1.6 Gall unrhyw gyngor a roddir gan CNC wrth ddarparu'r Gwasanaethau gael ei ddisodli gan newidiadau yn yr wybodaeth a fydd ar gael, y gyfraith, polisi a chanllawiau perthnasol i'r Cynnig;

4.1.7 Bydd hawl gan CNC i ddarparu copi o unrhyw gyngor, adroddiadau neu ddogfennau a baratowyd wrth ddarparu'r Gwasanaethau, i'r corff statudol sy'n gyfrifol am benderfynu'r cais am y Cynnig;

4.1.8 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau cymal 12, bydd hawl gan CNC i gyhoeddi unrhyw gyngor, adroddiadau neu ddogfennau a baratowyd wrth ddarparu'r Gwasanaethau;

4.1.9 Er gwaethaf darpariaethau cymal 12 bydd hawl gan CNC i gyhoeddi, cyflwyno neu ddefnyddio'r dulliau a'r canlyniadau a fydd yn deillio o ddarparu'r Gwasanaethau mewn unrhyw ffordd yr ystyria'n briodol.

4.2 Yn gyfnewid am i'r Cwsmer dalu'r ffioedd yn unol â chymal 6, rhaid i CNC ddarparu'r Gwasanaethau i'r Cwsmer, ynghyd ag unrhyw wasanaethau neu gyngor cysylltiedig a gytunir fel arall rhwng y partïon yn unol â chymal 10.1.

4.3 Wrth ddarparu'r Gwasanaethau, mae CNC yn cytuno i ymdrechu'n rhesymol i fodloni unrhyw Gyfnod Cyflenwi a Gytunwyd neu unrhyw amserlen arall a allai fod wedi ei chytuno rhwng y partïon yn unol â chymal 10.1.

4.4 Er gwaethaf cymal 4.3, nid yw CNC yn gwarantu cadw at unrhyw amseroedd a dyddiadau penodol ac, fel y cyfryw, ni fydd amser yn hanfodol.

## 5 Rhwymedigaethau'r Cwsmer

5.1 Rhaid i'r Cwsmer:

5.1.1 ddarparu yn brydlon i CNC y cyfryw wybodaeth a deunyddiau y gofynnir amdanynt yn rhesymol gan CNC er mwyn darparu'r Gwasanaethau;

5.1.2 sicrhau bod pob gwybodaeth a ddarperir ganddo i CNC yn gyflawn a chywir ym mhob modd perthnasol;

5.1.3 cydweithredu ag CNC ym mhob mater sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau; ac

5.1.4 os yw'n gymwys, darparu ar gyfer CNC, ei gyflogeion, asiantwyr, ymgynghorwyr ac is-gontractwyr pa bynnag fynediad i fangreoedd, llety swyddfa a chyfleusterau eraill y Cwsmer a fynnir yn rhesymol gan CNC ar gyfer darparu'r Gwasanaethau.

5.2 Os rhwystrir CNC rhag cyflawni unrhyw un neu ragor o'i rwymedigaethau o dan y Cytundeb (gan gynnwys ei rwystro rhag dechrau darparu'r Gwasanaethau oherwydd diffyg gwybodaeth berthnasol neu rywfodd arall) neu os perir iddo oedi gan unrhyw weithred neu anwaith gan y Cwsmer, neu fethiant y Cwsmer i gyflawni unrhyw rwymedigaeth berthnasol (Diffyg Cwsmer):

5.2.1 bydd hawl gan CNC, heb gyfyngu ei hawliau neu'i rwymedïau eraill, i atal cyflawni'r Gwasanaethau dros dro hyd nes bo'r Cwsmer yn cywiro'r Diffyg Cwsmer, ac i ddibynnu ar y Diffyg Cwsmer i'w ryddhau o gyflawni unrhyw rai o'i rwymedigaethau i'r graddau y bo'r Diffyg Cwsmer yn atal CNC, neu'n peri iddo oedi rhag cyflawni unrhyw un neu ragor o'i rwymedigaethau;

5.2.2 ni fydd CNC yn gyfrifol am unrhyw gostau neu golledion a dioddefir neu a ysgwyddir gan y Cwsmer, sy'n deilio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r ataliad, methiant neu oedi gan CNC rhag cyflawni unrhyw un neu ragor o'i rwymedigaethau fel y nodir yn y cymal 5.2 hwn; a

5.2.3 rhaid i'r Cwsmer ddigolledu CNC pan wneir cais ysgrifenedig am unrhyw gostau neu golledion a dioddefir neu a ysgwyddir gan CNC, sy'n deilio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r Diffyg Cwsmer.

## 6 Ffioedd a thaliadau

6.1 Rhaid i'r Cwsmer dalu'r Ffioedd yn unol â'r cymal 6 hwn.

6.2 Rhaid cyfrifo'r Ffioedd drwy gyfeirio at yr Amser Gwirioneddol, y codir tâl amdano yn unol â'r gyfradd fesul awr a bennir yn y Dyfynbris.

6.3 Bydd y Cwsmer yn atebol am y Ffioedd am y cyfryw Wasanaethau y gellid bod wedi eu darparu gan CNC hyd yn oed pan na ddarparwyd y cyfan o'r Gwasanaethau gan CNC, naill ai ar gais y Cwsmer ei hun neu pan fo CNC wedi hysbysu'r Cwsmer na all ddarparu'r cyfan o'r Gwasanaethau.

6.4 Yn ddarostyngedig i gymal 6.5, rhaid i CNC anfonebu'r Cwsmer am y Ffioedd ar y cyfryw amseroedd a bennir yn y Dyfynbris. Mae pob anfoneb yn daladwy o fewn 28 diwrnod ar ôl y dyddiad y'i dyroddwyd.

6.5 Er gwaethaf cymal 6.4, bydd hawl gan CNC i anfonebu yn union ar ôl cychwyn y Gwasanaethau.

6.6 [Mae'r amser talu yn hanfodol. Os na thelir yn llawn y symiau sy'n ddyledus o dan y cymal hwn erbyn y dyddiad dyledus:

6.6.1 caiff CNC, heb gyfyngiad ar ei hawliau eraill, godi llog ar y cyfryw symiau yn ôl 8 pwynt canran y flwyddyn uwchlaw'r gyfradd sylfaenol Banc Lloegr a fydd mewn grym o bryd i'w gilydd; a

6.6.2 bydd y llog yn cronni ar sail ddyddiol ac yn gymwys o'r dyddiad dyledus ar gyfer talu tan y dyddiad y telir yn llawn mewn gwirionedd, boed hynny cyn neu ar ôl dyfarniad.

6.7 Os nad yw'r Cwsmer yn talu unrhyw anfoneb ddilynol erbyn y dyddiad dyledus, caiff CNC, heb gyfyngiad ar ei hawliau neu'i rwymedïau eraill, atal cyflawni'r Gwasanaethau hyd nes telir y cyfryw anfoneb.]

## 7 Gwarantiadau

7.1 Mae CNC yn gwarantu ac yn datgan y bydd yn cyflenwi'r Gwasanaethau gyda hyfedredd, gofal a diwydrwydd rhesymol ac yn unol â'i weithdrefnau mewnol sefydledig ei hunan.

7.2 Mae'r Cwsmer yn gwarantu y bydd yr wybodaeth a ddarperir ganddo i CNC, hyd eithaf ei wybodaeth, yn gyflawn a manwl gywir ym mhob modd perthnasol.

7.3 Ac eithrio mewn perthynas â'r gwarantiad y darperir ar ei gyfer yng nghymal 7.1, mae CNC drwy hyn yn allgáu pob gwarantiad a datganiad arall, boed yn oblygedig mewn cyfraith neu fel arall, i'r graddau y mae'r gyfraith yn caniatáu.

## 8 Terfynu

8.1 Heb leihau dim ar effaith unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill y gallai fod gan CNC, caiff CNC derfynu'r Cytundeb:

8.1.1 drwy roi un mis o rybudd ysgrifenedig i'r Cwsmer;

8.1.2 drwy i'r Cwsmer roi rhybudd ysgrifenedig a gaiff effaith ar unwaith, os yw:

(a) ym marn resymol CNC, os yw darparu'r Gwasanaethau yn gwrthdaro neu'n debygol o wrthdaro â rhwymedigaethau statudol CNC neu â rhwymedigaethau CNC fel Ymgynghorai Statudol;

(b) yr wybodaeth a ddarperir gan y Cwsmer yn annigonol, ym marn resymol CNC, i alluogi CNC i ddarparu'r Gwasanaethau; neu

(c) newid yn digwydd yn Rheolaeth y Cwsmer sy'n cael effaith anffafriol a pherthnasol ar gyflawni'r Cytundeb; neu

(d) y Cwsmer yn mynd yn ansolfent, yn fethdalwr, yn cael ei ddiddymu, yn ymrwymo i drefniant gwirfoddol cwmni o dan Ddeddf Ansolfedd 1986, yn penodi derbynnydd neu ddigwyddiad tebyg mewn unrhyw awdurdodaeth ac eithrio at ddibenion ail-lunio diddyled neu uno, neu'n dioddef neu'n caniatáu codi unrhyw atafaeleb, boed yn gyfreithiol neu'n ecwitïol, ar ei eiddo neu ei sicrhau yn erbyn ei eiddo, neu'n methu talu ei ddyledion o fewn ystyr adran 123 o Ddeddf Ansolfedd 1986, neu'r Cwsmer yn rhoi'r gorau i fasnachu.

8.2 Caiff y naill barti neu'r llall derfynu'r Cytundeb drwy roi i'r parti arall rybudd ysgrifenedig a gaiff effaith ar unwaith os yw'r parti arall hwnnw'n cyflawni Diffyg ac:

8.2.1 os na chywirir y Diffyg o fewn 30 diwrnod neu pa bynnag gyfnod arall a gytunir rhwng y partïon, ar ôl dyroddi hysbysiad ysgrifenedig sy'n tynnu sylw at y Diffyg ac yn gofyn am ei gywiro;

8.2.2 os nad yw'r Diffyg yn un y gellir ei gywiro; neu

8.2.3 os yw'r Diffyg yn doriad sylfaenol o'r Cytundeb.

8.3 Os digwydd bod hawl gan CNC i derfynu'r Cytundeb yn unol â chymal 8.2.1, caiff CNC ddewis atal cyflenwi'r cyfan neu ran o'r Gwasanaethau dros dro yn hytrach nag arfer yr hawl i derfynu. Bydd ataliad o'r fath yn parhau hyd nes hysbysir y Cwsmer gan CNC fod y gwrthdaro gwirioneddol neu debygol wedi dod i ben. Er mwyn osgoi amheuaeth, os rhan yn unig o'r Gwasanaethau a atelir gan CNC, rhaid i weddill y Gwasanaethau barhau i gael eu darparu yn unol â'r Cytundeb.

8.4 Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd unrhyw ataliad yn unol â chymal 8.3 yn cael yr effaith o atal unrhyw rwymedigaethau sydd ar y Cwsmer i dalu symiau sy'n ddyledus ac yn daladwy yn unol â chymal 6.

## 9 Canlyniadau terfynu

9.1 Pan derfynir y Cytundeb am ba bynnag reswm:

9.1.1 rhaid i'r Cwsmer dalu pob anfoneb ddyladwy ar unwaith;

9.1.2 rhaid i CNC anfonebu'r Cwsmer yn ddiymdroi am yr holl Wasanaethau a gyflawnwyd ond sydd eto heb eu hanfonebu, a bydd y taliad am y cyfryw anfonebau yn ddyledus ar unwaith pan fo'r Cwsmer yn eu derbyn;

9.2 Bydd cymalau ganlynol y Cytundeb yn goroesi terfynu'r Cytundeb, beth bynnag fo achos y terfynu:

9.2.1 cymal 8 (terfynu);

9.2.2 cymal 11 (rhyddid gwybodaeth a diogelu data+)

9.2.3 cymal 12 (cyfrinachedd);

9.2.4 cymal 17 (datrys anghydfod);

9.2.5 cymal 18 (cyfyngu atebolrwydd);

9.2.6 cymal 21 (hawliau trydydd partïon);

9.2.7 cymal 24 (hysbysiadau);

9.2.8 cymal 25 (cyfraith ac awdurdodaeth)

ynghyd ag unrhyw ddarpariaeth arall o'r Cytundeb hwn y bwriedir iddo, yn benodol neu drwy oblygiad, oroesi.

## 10 Amrywio cytundeb

10.1 Ni fydd unrhyw amrywiad yn y Costau, y Gwasanaethau na'r Cyfnod Cyflenwi a Gytunwyd yn cael effaith oni fydd CNC yn darparu i'r Cwsmer Ddyfynbris diwygiedig sy'n pennu'r Costau, Gwasanaethau a Chofnod Cyflenwi a Gytunwyd amrywiedig ynghyd â'r holl fanylion eraill sy'n berthnasol i'r gwasanethau diwygiedig, ac CNC a'r Cwsmer wedi llofnodi neu weithredu'r Dyfynbris diwygiedig. Bydd y cyfryw Ddyfynbris diwygiedig yn disodli unrhyw Ddyfynbris blaenorol.

## 11 Rhyddid gwybodaeth a diogelu data

11.1 Mae'r Cwsmer yn cydnabod bod CNC yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ("RhGA"). Felly, gall CNC fod o dan rwymedigaeth i ryddhau dogfennau, gan gynnwys unrhyw nodiadau ffeil, wrth ymateb i gais DRhG neu RhGA. Ni all CNC, felly, warantu cyfrinachedd.

11.2 Mewn perthynas ag unrhyw gais DRhG neu RhGA, CNC yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt fydd yn penderfynu a yw unrhyw wybodaeth, boed yn wybodaeth fasnachol sensitif ai peidio, yn esempt rhag ei datgelu yn unol â DRhG neu RhGA ynteu'n wybodaeth sydd i'w datgelu mewn ymateb i gais am wybodaeth.

11.3 Wrth ymateb i gais am wybodaeth, gan cynnwys gwybodaeth yn gysylltiedig â'r Cytundeb (megis, ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol: dogfennau tendr, gwybodaeth gontractiol ddilynol neu wybodaeth a ddosbarthwyd yn gyfrinachol neu'n sensitif), bydd CNC, os tybia fod hynny'n angenrheidiol yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt, yn gwneud ymdrech resymol i ymgynghori â'r Cwsmer. Serch hynny mae'r Cwsmer yn cydnabod y caiff CNC, yn unol â'r Cod, ddatgelu gwybodaeth ynghylch y Cwsmer neu'r Gwasanaethau heb ymgynghori â'r Cwsmer, neu ar ôl ymgynghori â'r Cwsmer a chymryd i ystyriaeth ei farn, ar yr amod bod CNC, pan fo'n briodol, yn cymryd camau rhesymol i rybuddio'r Cwsmer ymlaen llaw; neu, yn niffyg hynny, yn tynnu sylw'r Cwsmer at y datgeliad ar ôl unrhyw ddatgeliad o'r fath

11.4 Mae'r ddau barti yn cytuno i gydymffurfio â'u priod rwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

## 12 Cyfrinachedd

12.1 Rhaid i'r ddau barti:

12.1.1 drin pob Gwybodaeth Gyfrinachol sy'n eiddo i'r llall yn gyfrinachol a'i diogelu yn unol â hynny; a

12.1.2 ac eithrio pan ganiateir datgelu rywfodd arall gan ddarpariaethau'r Cytundeb, peidio â datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol sy'n eiddo i'r parti arall i unrhyw berson heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y parti arall, ac eithrio i'w cyflogeion, swyddogion, cynrychiolwyr a chynghorwyr i ba bynnag raddau y bo'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Cytundeb ar yr amod bod pob person o'r fath yn ymwybodol o natur gyfrinachol yr wybodaeth ac yn cytuno i gydymffurfio â'r cymal hwn fel pe bai'n barti i'r Cytundeb.

12.2 Ni fydd y cymal 12 hwn yn gymwys i Wybodaeth Gyfrinachol:

12.2.1 sydd neu a ddaw ar gael i'r cyhoedd (ac eithrio drwy dorri unrhyw rwymedigaeth o gyfrinachedd); neu

12.2.2 a oedd yn hysbys i barti, heb gyfyngiad ar ei datgelu, cyn i'r wybodaeth gael ei datgelu iddo gan y parti arall; neu

12.2.3 a gafwyd gan drydydd parti a oedd wedi cael yr wybodaeth honno yn gyfreithlon ac nad yw o dan unrhyw rwymedigaeth sy'n cyfyngu ar ei datgelu; neu

12.2.4 y mae'n ofynnol ei datgelu drwy gyfraith, gan gynnwys unrhyw ofyniad i ddatgelu o dan DRhG neu RhGA; neu

12.2.5 a ddatblygir yn annibynnol gan barti heb fynediad uniongyrchol nac anuniongyrchol i'r wybodaeth a ddatgelir iddo gan y parti arall, na'r modd i'w defnyddio na gwybodaeth amdani.

12.3 Bydd y cymal hwn yn rhwymo'r partïon yn ystod Cyfnod y Contract ac am [5] mlynedd ar ôl terfynu'r Cytundeb.

## 13 Deunyddiau CNC

13.1 Bydd yr holl hawliau eiddo deallusol mewn unrhyw wybodaeth neu ddeunydd a gyflwynir gan un parti i'r parti arall yn unol â'r Cytundeb hwn yn parhau'n eiddo i'r parti a oedd yn berchen ar yr hawliau eiddo deallusol hynny cyn eu cyflwyno felly

13.2 Mae CNC drwy hyn yn rhoi i'r Cwsmer drwydded anghyfyngol i ddefnyddio'r deunyddiau a gwybodaeth arall, a ddarperir gan CNC at ei ddibenion busnes mewnol yn unig mor bell ag y mae'r rhain yn berthnasol i'r Cynnig i'r graddau sy'n rhesymol angenrheidiol er mwyn cael budd o'r Gwasanaethau.

13.3 Rhaid i'r Cwsmer beidio â dileu na thynnu unrhyw hysbysiadau perchnogol neu ymwadiadau nac unrhyw hysbysiad arall a gynhwysir o fewn neu sy'n ymwneud ag unrhyw gyngor ysgrifenedig neu ddeunyddiau eraill a ddarparwyd yn unol â'r Cytundeb.

## 14 Toradwyedd

14.1 Os yw neu os â unrhyw ddarpariaeth o'r Cytundeb hwn (neu ran o unrhyw ddarpariaeth) yn anghyfreithlon, yn annilys neu'n anorfodadwy, nid effeithir ar gyfreithlondeb, dilysrwydd na gorfodadwyedd unrhyw ddarpariaeth arall o'r Cytundeb hwn.

14.2 Os yw neu os â unrhyw ddarpariaeth o'r Cytundeb hwn (neu ran o unrhyw ddarpariaeth) yn anghyfreithlon ond byddai yn gyfreithlon, dilys a gorfodadwy pe dilëid neu addesid rhyw ran o'r ohoni, bydd y ddarpariaeth neu'r rhan o ddarpariaeth dan sylw yn gymwys gyda'r cyfryw ddileadau neu addasiadau y byddai eu hangen i wneud y ddarpariaeth yn gyfreithlon, dilys a gorfodadwy. Os digwydd unrhyw ddilead neu addasiad o'r fath, rhaid i'r partïon negodi'n ddiffuant er mwyn cytuno ar ddarpariaeth amgen a fydd yn dderbyniol i'r ddau barti.

## 15 Hawlildiad

15.1 Ni fydd methiant, oedi neu hepgoriad gan y naill barti na'r llall i arfer unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi a ddarperir mewn cyfraith neu o dan y Cytundeb hwn yn gweithredu fel ildiad o'r hawl, pŵer neu rwymedi hwnnw, ac ni fydd yn rhwystro nac yn cyfyngu ar arfer hwnnw neu unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi arall yn y dyfodol.

15.2 Ni fydd arferiad sengl neu rannol o unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi a ddarperir mewn cyfraith neu o dan y Cytundeb hwn yn rhwystro arfer hwnnw neu unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi arall yn y dyfodol.

15.3 Ac eithrio fel y darperir yn benodol fel arall gan y Cytundeb, mae'r holl rwymedïau sydd ar gael i'r naill barti a'r llall am dorri'r Contract yn gronnus a gellir eu harfer yr un pryd neu ar wahân, ac ni cheir ystyried bod arfer unrhyw rwymedi unigol yn gyfystyr â dewis y rhwymedi hwnnw gan wrthod pob rhwymedi arall.

15.4 Ni fydd ildiad (y gellir ei roi yn ddarostyngedig i amodau) o unrhyw hawl neu rwymedi a ddarperir o dan y Cytundeb neu mewn cyfraith, yn effeithiol oni fydd yn ysgrifenedig, a bydd yn gymwys yn unig i'r parti hwnnw y'i cyfeirir ato ac i'r amgylchiadau penodol y'i rhoddir ar eu cyfer. Ni fydd yn rhwystro'r parti a roddodd yr hawlildiad rhag dibynnu ar yr hawl neu'r rhwymedi mewn amgylchiadau gwahanol.

## 16 Cydymffurfio â'r gyfraith

16.1 Rhaid i bob parti gydymffurfio â'r holl gyfreithiau deddfiadau, rheoliadau, polisïau rheoleiddiol, canllawiau a chodau diwydiant sy'n gymwys iddynt, a chynnal y cyfryw awdurdodiadau a phob cymeradwyaeth, trwydded ac awdurdod arall a fydd yn ofynnol o bryd i'w gilydd er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan nu mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn

## 17 Datrys anghydfod

17.1 Rhaid i Gynrychiolwyr y partïon wneud ymdrech resymol i ddatrys unrhyw anghydfod sy'n deillio o'r Cytundeb, neu mewn cysylltiad â'r Cytundeb, mewn modd cyfeillgar ar lefel y gwaith.

17.2 Os methir â chyrraedd consensws rhwng y partïon yn y modd hwnnw, rhaid datrys yr anghydfod yn unol â chymalau 17.3 i 17.4:

17.3 Rhaid i'r partïon wneud pob ymdrech resymol i ddatrys yr anghydfod drwy negodi, gan ddilyn gweithdrefnau canlynol:

17.3.1 Ceir ysgogi'r broses ddatrys ar unrhyw adeg wrth i un parti hysbysu'r llall mewn ysgrifen, fod anghydfod wedi codi. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys gwybodaeth resymol ynglŷn â natur yr anghydfod.

17.3.2 O fewn [10 Diwrnod Busnes] ar ôl cyflwyno'r hysbysiad, rhaid i Gynrychiolwyr y partïon gyfarfod i drafod yr anghydfod a cheisio ei ddatrys.

17.3.3 Os na fydd yr anghydfod wedi ei ddatrys o fewn [10] Diwrnod Busnes ar ôl y cyfarfod cyntaf o Gynrychiolwyr y partïon, rhaid cyfeirio'r mater at Uwch-gynrychiolwyr y partïon. Rhaid i'r Uwch-gynrychiolwyr gyfarfod o fewn [5] Diwrnod Busnes i drafod yr anghydfod a cheisio ei ddatrys.

17.3.4 Os na fydd yr anghydfod wedi ei ddatrys o fewn [5] Diwrnod Busnes ar ôl cyfarfod cyntaf yr Uwch-gynrychiolwyr o dan gymal 17.3.3 rhaid cyfeirio'r mater ar gyfer cyfryngu yn unol â Rheolau Cyfryngu Llys Cyflafareddu Rhyngwladol Llundain.

17.4 Hyd nes bo'r partïon wedi cwblhau'r camau y cyfeirir atynt yng nghymalau 17.2 a 17.3, ac wedi methu â datrys yr anghydfod, rhaid i'r ddau barti beidio â chychwyn achos cyfreithiol na chyflafareddu ffurfiol, ac eithrio y caiff y naill barti neu'r llall ar unrhyw adeg geisio rhyddhad interim brys o'r llysoedd neu ryddhad cyflafareddwr brys.

## 18 Cyfyngu atebolrwydd

18.1 Nid yw'r naill barti yn allgáu nac yn gyfyngu ei atebolrwydd i'r llall am farwolaeth neu anaf personol a achosir gan ei esgeulustod, neu dwyll neu gamliwio twyllodrus, nac unrhyw atebolrwydd arall nad yw'r gyfraith yn caniatáu ei allgáu.

18.2 Yn ddarostyngedig i gymal 18.1, ni fydd cyfanswm atebolrwydd CNC sy'n deilio o'r Cytundeb neu'n gysylltiedig â'r Cytundeb, boed o dan gyfraith camweddau (gan gynnwys esgeulustod neu dorri dyletswydd statudol), contract, camliwio, adfer neu rywfodd arall, yn fwy na'r ffioedd a delir gan y Cwsmer am y Gwasanaethau neu'r costau a dynnir gan CNC wrth ddarparu'r Gwasanaethau i'r Cwsmer os ydynt yn fwy, a chaiff ei gyfyngu beth bynnag i [£50,000].

18.3 Yn ddarostyngedig i gymal 18.1, ni fydd y naill barti yn atebol i'r parti arall am y colledion canlynol (boed uniongyrchol neu anuniongyrchol):

18.3.1 unrhyw golled neu ddifrod anuniongyrchol, arbennig neu ganlyniadol; neu

18.3.2 unrhyw golled o elw, trosiant, cyfleoedd busnes, data, neu niwed i enw da neu ewyllys da.

## 19 Force majeure

19.1 Ni fydd parti yn atebol os perir iddo oedi neu os rhwystrir ef rhag cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn oherwydd Force Majeure, ar yr amod ei fod:

19.1.1 yn hysbysu'r parti arall yn ddiymdroi ynghylch y digwyddiad Force Majeure ac am ba gyfnod y disgwylir iddo barhau; ac

19.1.2 yn gwneud ymdrech resymol i leihau effeithiau'r digwyddiad hwnnw.

**20 Gwrth-lwgrwobrwyo**

20.1 Rhaid i bob parti gydymffurfio â'r Cyfreithiau Llwgrwobrwyo perthnasol.

20.2 Heb gyfyngu ar gymal 20.1, rhaid i'r naill barti a'r llall beidio â gwneud na derbyn llwgrwobr (fel y'i diffinnir yn Neddf Llwgrwobrwyo 2010) nac unrhyw daliad amhriodol arall, na chaniatáu gwneud neu dderbyn y cyfryw ar ei ran, naill i yn y Deyrnas Unedig nac mewn man arall, a rhaid i'r naill barti a'r llall weithredu a chynnal gweithdrefnau digonol i sicrhau na wneir ac na dderbynnir llwgrwobrwyon neu daliadau o'r fath ar ei ran.

20.3 Rhaid i'r naill barti hysbysu'r llall ar unwaith cyn gynted ag y daw'n ymwybodol o doriad [neu doriad posibl] o unrhyw un o'r gofynion yn y cymal 20 hwn (Gwrth-lwgrwobrwyo).

**21 Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999**

21.1 Ni fydd gan berson nad yw'n barti i'r Contract hawliau o dan y Contract nac mewn perthynas ag ef, yn rhinwedd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

**22 Y Cytundeb cyfan**

22.1 Y Cytundeb ac unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt ynddo yw'r cytundeb cyfan rhwng y partïon ac mae'n disodli unrhyw drefniant, dealltwriaeth neu gytundeb blaenorol rhyngddynt mewn perthynas â deunydd pwnc y Cytundeb.

22.2 Mae'r naill barti yn gwarantu i'r parti arall nad yw, wrth ymrwymo i'r Cytundeb a'r dogfennau y cyfeirir atynt ynddo, yn dibynnu ar unrhyw ddatganiad, haeriad, sicrwydd na gwarant gan unrhyw berson (boed yn barti i'r Cytundeb ai peidio) ac eithrio'r hyn a nodir yn benodol yn y Cytundeb neu'r dogfennau hynny.

22.3 Nid oes unrhyw beth yn y cymal hwn sy'n cyfyngu nac yn allgáu unrhyw atebolrwydd am dwyll neu gamliwio twyllodrus.

**23 Dim partneriaeth nac asiantaeth**

23.1 Mae'r partïon yn sefydliadau annibynnol ac nid ydynt yn bartneriaid, yn benadur ac asiant nac yn gyflogwr a chyflogai ac nid oes dim yn y Cytundeb y bwriedir iddo sefydlu, neu y caniateir tybio ei fod yn sefydlu partneriaeth, cyd-fenter, ymddiriedolaeth, perthynas ymddiriedol neu berthynas arall rhyngddynt ac eithrio'r berthynas gontractiol y darperir yn benodol ar ei chyfer yn y Cytundeb.

23.2 Nid oes gan unrhyw barti awdurdod, ac ni chaiff honni bod ganddo awdurdod, i weithredu fel asiant ar ran y parti arall nac i'w rwymo mewn unrhyw ffordd.

## 24 Hysbysiad

24.1 Rhaid i unrhyw hysbysiad neu rybudd a roddir o dan y Cytundeb:

24.1.1 fod yn ysgrifenedig;

24.1.2 fod wedi ei lofnodi gan neu ar ran y parti sy'n ei roi;

24.1.3 gael ei anfon at y parti perthnasol drwy e-bost, â llaw yn bersonol, drwy'r post dosbarth cyntaf neu drwy negesydd masnachol at gynrychiolydd y parti perthnasol y gofynnwyd iddo dderbyn yr hysbysiad yn ei gyfeiriad fel y'i pennir yn y Dyfynbris neu ym mha gyfeiriad bynnag arall a bennir gan y parti perthnasol mewn hysbysiad ysgrifenedig i'r parti arall.

24.2 Ni fydd darpariaethau'r cymal hwn yn gymwys i gyflwyno unrhyw broses mewn unrhyw achos cyfreithiol pan fydd y rheolau cyfreithiol arferol ynglŷn ag anfon yn gymwys.

## 25 Cyfraith ac awdurdodaeth

25.1 Llywodraethir a dehonglir y Cytundeb, a phob anghydfod neu hawliad sy'n deillio ohono neu'n gysylltiedig â'r Cytundeb neu ei ddeunydd pwnc, yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr.

25.2 Mae'r partïon yn cytuno'n ddiwrthdro y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth unigryw i setlo pob anghydfod neu hawliad sy'n deillio o'r Cytundeb neu sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb neu ei ddeunydd pwnc.